# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 2

CYDGYSYLLTU A CHYNLLUNIO GOFAL AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Penodi cydgysylltwyr gofal*

### 16 Darpariaeth bellach ynghylch penodi cydgysylltwyr gofal

(1) Rhaid i ddarparydd beidio â phenodi unigolyn yn gydgysylltydd gofal o dan adran 14(1) onid yw'r unigolyn yn gymwys i'w benodi'n gydgysylltydd gofal o dan reoliadau a wneir o dan adran 47.

(2) Rhaid i ddarparydd beidio â phenodi unigolyn yn gydgysylltydd gofal o dan adran 14(1) o blith staff person arall heb gydsyniad y person hwnnw.

(3) Onid yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru'n darparu fel arall, nid yw penodiad unigolyn yn gydgysylltydd gofal yn dod i ben o ganlyniad i newid darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol claf perthnasol fel y'i dynodir o dan adran 15.

(4) Caiff darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol derfynu penodiad unigolyn a benodwyd yn gydgysylltydd gofal o dan adran 14(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 16 mewn grym ar 6.6.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 16.